Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref EM/05519/19

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

cerian.davies@cyg-wlc.cymru

4 Medi 2019

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Awst sy'n darparu diweddariad ynglŷn â'ch prosesau ymchwilio a gorfodi.

Rwy'n falch eich bod wedi adolygu'ch prosesau o weithredu Rhan 5 Mesur y Gymraeg, ac eich bod wedi rhoi sylw i safbwyntiau a fynegwyd ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn 2017, ac i'r ohebiaeth nes i anfon atoch chi ym mis Tachwedd 2018 wrth wneud hynny. Yn benodol, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr addasiadau adeiladol rydych wedi'u cyflwyno yn cynnwys trefn pwyso a mesur newydd wrth benderfynu agor ymchwiliad neu beidio, ac eich bod yn ystyried ymdrechion a wnaed i gael datrysiad lleol i'r gŵyn fel un ystyriaeth. Mae'r data rydych yn eu cyflwyno yn Atodiad 1 i'ch llythyr yn galonogol, ac yn awgrymu bod y diwygiadau wedi cael effaith yn symud i'r cyfeiriad cywir o ran sicrhau bod cymaint o adnoddau ag sy'n bosib yn cael eu defnyddio i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Diolch eto am y diweddariad, ac am eich ymroddiad i sicrhau bod camau gorfodi sy'n cael eu gosod yn cyfrannu at well cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.